# Marchogaeth ac arwain ceffylau er mwyn eu hymarfer

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys marchogaeth ac arwain ceffylau er mwyn eu hymarfer. Dylech allu marchogaeth ac arwain detholiad o geffylau, cadw rheolaeth dros geffylau ac adnabod ac ymdrin ag amodau gwahanol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis a gosod harneisiau ac offer addas
3. marchogaeth ac arwain detholiad o geffylau yn unol â gofynion ymarfer priodol
4. cadw rheolaeth dros geffylau sy'n cael eu marchogaeth a'u harwain tra'n mynd ar eu cefn, a thrwy gydol yr ymarfer, mewn ffordd sy'n briodol i'r amodau
5. dilyn y gweithdrefnau a osodir, a Rheolau'r Ffordd Fawr, ar gyfer marchogaeth ar y ffordd  bob amser
6. ymdrin ag amodau gwahanol a chymryd camau priodol, yn unol ag arfer da cyfredol
7. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. addasrwydd ceffylau i farchogaeth gyda'i gilydd er mwyn eu hymarfer
3. y rhesymau dros ddewis ceffylau i gael eu marchogaeth a'u harwain
4. y mathau o amodau a sut y gall y rhain effeithio ar geffylau
5. dewis harneisiau ac offer i'w defnyddio wrth farchogaeth ac arwain ceffylau
6. y dulliau hyfforddi gwahanol
7. y disgyblaethau gwahanol ar gyfer ceffylau a'u hanghenion
8. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol
10. eich cyfrifoldebau yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr.

## Cwmpas/Ystod

Marchogaeth un ceffyl ac arwain un arall yn cerdded, trotian a hanner carlamu er mwyn eu hymarfer

Marchogaeth ceffylau yn unol â:

- eu haddasrwydd i farchogaeth gyda'i gilydd
- gofynion ymarfer
- marchogaeth ar y ffordd
- marchogaeth mewn man agored

## Geirfa

Amodau:

- arwyneb
- y tywydd
- gwelededd
- marchogion eraill
- cyflwr y ffordd
- defnyddwyr eraill y ffordd
- presenoldeb pobl eraill
- presenoldeb ceffylau eraill
- presenoldeb anifeiliaid eraill

Marchogaeth ac arwain ceffylau er mwyn eu hymarfer

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq322 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; marchogaeth; ymarfer |